**Cofnodion Cyfarfod Grŵp Trawsbleidiol Gogledd Cymru**
**Cynhaliwyd dros Teams ar 9 Chwefror 2024, 12:00 i 13:30**

**Aelodau o'r Senedd oedd yn bresennol:**
Mark Isherwood (Cadeirydd), Carolyn Thomas, Sam Rowlands, Gareth Davies

**Staff cefnogi'r Senedd:**

Rhys Hughes dros Rhun Ap Iorwerth, Daniel Starkey dros Darren Millar

**Arweinwyr a Chynrychiolwyr Awdurdodau Lleol:**Y Cynghorydd Jason McLellan (Sir Ddinbych), y Cynghorydd Ian Roberts (Sir y Fflint), y Cynghorydd Charley McCoubrey (Conwy), y Cynghorydd Gary Pritchard (Ynys Môn)

**Siaradwyr Gwadd: Dr Michael Roberts, Ysgol Gwyddorau Eigion, Prifysgol Bangor**
**Ashley Rogers, Cyngor Busnes Gogledd Cymru, Mersi a Dyfrdwy**
**Sarah Reardon, Network Rail**
**Alwen Williams, Uchelgais Gogledd Cymru**
**Swyddogion CLILC:** Chris Llewelyn (Prif Weithredwr), Lucy Sweet (Ysgrifennydd Grŵp), Luke Nicholas (Swyddog Polisi Corfforaethol), Evelyn James (Swyddog Cefnogi), Tim Peppin (Cyfarwyddwyr Adfywio)

**Cyfieithu**: Bethan Mair Evans

**Camau y Cytunwyd Arnynt:**

- Ysgrifennu ar y cyd at yr Ysgrifennydd Gwladol dros Gludiant, Mark Harper AS ynglŷn â chyllid datblygu ar gyfer Trydaneiddio'r Brif Reilffordd.
- Maes o law, cefnogi galwad Dr Rogers i Lywodraeth Cymru am raglen genedlaethol Mapio Morol.

1. **Croeso gan y Cadeirydd a Chyflwyniadau:** Agorodd y Cadeirydd y cyfarfod a chyflwyno'r rhai oedd yn bresennol.

2. **Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol a gynhaliwyd ar 10 Tachwedd 2023 a Materion yn Codi.** Cytunwyd bod nodiadau'r cyfarfodydd diwethaf yn gofnod cywir.

3.**Gofynnwyd i'r Aelodau ethol Luke Nicholas fel Ysgrifennydd yn lle Lucy Sweet** o CLILC ar gyfer y flwyddyn i ddod ac ni wnaed unrhyw enwebiadau eraill. Etholwyd Luke Nicholas fel Ysgrifennydd.

4.**Cyflwyniad gan Mr. Ashley Rogers, Prif Weithredwr Cyngor Busnes Gogledd Cymru, Mersi a Dyfrdwy ar Barth Buddsoddi Sir y Fflint a Wrecsam.** Cyflwyniad sleidiau.

- Amlinellodd Ashley Rogers hanes yr ymgyrch i sicrhau Parth Buddsoddi Wrecsam a Sir y Fflint. Sefydlodd Cyngor Busnes Gogledd Cymru, Mersi a Dyfrdwy grŵp llywio.

Roedd y pwyslais cychwynnol ar hyrwyddo'r cysyniad o Barth Buddsoddi yng Nghymru ac ymgyrchu am un yn Wrecsam/Sir y Fflint.

- Y nod oedd £80 miliwn dros 5 mlynedd. Ym mis Gorffennaf 2023, newidiodd pethau'n sylweddol a dechreuodd yr ymgyrch o ddifrif, gan gyfarfod â dros 40 o sefydliadau yn cynnwys cyflogwyr mawr, Cynghorau (briffio arweinwyr cynghorau), darparwyr addysg uwch/bellach ac ati.
- Dynodwyd Gweithgynhyrchu Uwch a Chreadigol a Digidol fel y ddau sector blaenoriaeth. Nid oes sôn am y sector Creadigol a Digidol yn y canllawiau polisi yn Lloegr, ond mae'n cael ei ystyried yn gryfder yn y rhanbarth.
- Mae Gweithgynhyrchu Uwch yn sector anferth yn y rhanbarth gydag ystod o gwmnïau pwysig yn amrywio o gynhyrchu awyrennau i ailgylchu.
- Mae'r sector Creadigol a Digidol yn cynnwys Theatr Clwyd, Prifysgol Wrecsam, Games Talent Wales a busnesau newydd sy'n symud i mewn yn cynnwys cysylltiadau â Workerbee. Mae hyn oherwydd doniau lleol a'r ymwybyddiaeth fyd-eang yn ymwneud â Chlwb Pêl-droed Wrecsam. Mae manteisio ar y gwerth ychwanegol hwn yn gyfle.
- Mae croestoriad rhwng y ddau hefyd e.e. y Brifysgol ac Unimac yn cydweithio gan ddefnyddio VR ar gyfer hyfforddiant.
- Roedd gweithgareddau eraill oedd yn rhan o'r ymgyrch yn cynnwys grŵp llywio estynedig, briff gwleidyddol trawsbleidiol i Aelodau o'r Senedd ac Aelodau Seneddol ym mis Medi 2023, golwg ar safleoedd treth posibl, safleoedd cadw twf busnes a buddsoddiad presennol a allai gael ei drosi neu ei dynnu i mewn gan y Parth Buddsoddi, oedd yn £1.7 biliwn posibl. Roedd yr ymgyrch hefyd yn edrych ar fapio amddifadedd a chanolfannau cyflogi i'r ddau sector blaenoriaeth. Gallai Parth Buddsoddi gysylltu pobl â hyfforddiant a swyddi (yn cynnwys yn Ystâd Ddiwydiannol Wrecsam a Pharc Diwydiannol Glannau Dyfrdwy).
- Roedd gweithgaredd yn dilyn y cyfarfod ym mis Medi 2023 yn cynnwys digwyddiad ymgysylltu mawr yn Theatr Clwyd. Sylw yn y wasg am y sectorau blaenoriaeth.
- Ymgysylltu â Gweinidog yr Economi ym mis Hydref 2023. Ac yna cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei chefnogaeth i Barthau Buddsoddi, yn amodol ar gyhoeddiad gan Lywodraeth y DU am gyllid.
- Symudwyd ymlaen i lobïo cynrychiolwyr Llywodraeth y DU a'r Senedd.
- Roedd Datganiad yr Hydref yn gadarnhaol ond dim ond am Weithgynhyrchu Uwch yn unig. Fodd bynnag, addawyd £160 miliwn dros 10 mlynedd i Barthau Buddsoddi, oedd yn gyfnod hwy na'r hyn a ragwelwyd i ddechrau.
- I grynhoi: mae'r nod o lunio cynnig a chael statws Parth Buddsoddi wedi bod yn llwyddiannus.
- Mae Awdurdodau Lleol / Cyd-bwyllgorau Corfforedig bellach yn rhan ohono ar lefel achos busnes.
- **Trafodaeth:**
- Trafododd yr aelodau'r sectorau, a gofynnodd Mark Isherwood sut y byddai'r parth yn dod â budd i'r rhanbarth yn ehangach.
- Nid ydym yno eto gyda'r sector Creadigol a Digidol, er ein bod yn parhau i ymgysylltu â Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU a bydd yn rhaid i ni wthio amdano.

- O ran y cwestiwn rhanbarthol, bydd y Parth Buddsoddi yn ychwanegu at y porthladd rhydd yn y gorllewin a bydd yn cael ei arwain gan y Cyd-bwyllgor Corfforedig, fydd yn gallu ei blethu i bolisïau eraill. Nid oes unrhyw wrthdaro rhwng y weledigaeth yn y gogledd-ddwyrain a buddion y gogledd-orllewin o safbwynt busnes.
- Roedd Carolyn Thomas yn credu y dylid hyrwyddo cryfderau'r sectorau gydag ystadegau a data a sut y bydd y Parth Buddsoddi'n ychwanegu gwerth. Nododd bod cysylltedd digidol a band eang yn hanfodol ac angen eu gwella, a bod hyn angen buddsoddiad, yn cynnwys gan Lywodraeth y DU. Dylai hyrwyddo'r Parth Buddsoddi hefyd gynnwys ystod eang o bobl/cefnogwyr. Nodwyd bod y tywydd yn y digwyddiad ymgysylltu wedi atal hyn.
- Roedd Ashley Rogers yn cytuno bod y sector Creadigol a Digidol yn bwysig. Roedd angen gwneud mwy o waith â Chymru Greadigol.
- Roedd y Cynghorydd McLellan yn awyddus i weld unrhyw waith pellach ar effaith ranbarthol a gweithio gydag Uchelgais Gogledd Cymru/y Cyd-bwyllgor Corfforedig.
- Holodd Sam Rowlands am rôl Cyngor Busnes Gogledd Cymru, Mersi a Dyfrdwy gan fod y Parth Buddsoddi wedi'i drosglwyddo i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig. Mae angen i fusnes gadw llais cryf. Dywedodd Ashley y bydd is-bwyllgor o'r Cyd-bwyllgor Corfforedig a byddai'r Cyngor Busnes yn hoffi cael rôl ddiffiniedig, sy'n gwneud penderfyniadau ar yr is-bwyllgor. Ni wnaed penderfyniad ar hyn hyd yma.
- Dywedodd Alwen Williams (Uchelgais Gogledd Cymru/y Cyd-bwyllgor Corfforedig) eu bod yn ymgysylltu â Llywodraeth y DU am yr achos busnes. Nid oes cyllid ymlaen llaw ar gyfer datblygu achos busnes. Mae wedi cytuno gyda'r Cyd-bwyllgor Corfforedig y gellir rhoi rhywfaint o gyllid ymlaen llaw drwy eu cyllideb er mwyn mynd drwy'r broses porth i ddatblygu'r cynllun achos busnes. Mae angen cytuno ar fecanwaith rôl y sector preifat yn y broses gwneud penderfyniadau. Pan fydd yr ymgyrch ar y gweill, bydd ochr y llywodraeth (Cymru / y DU) yn llunio data ar lwybrau teithio i helpu i wneud y penderfyniad. Roedd hyn yn gweithio ochr yn ochr â'r ymgyrch i sicrhau'r Parth Buddsoddi.
- Gorffennodd Ashley Rogers drwy groesawu'r gefnogaeth wleidyddol drawsbleidiol gan gynrychiolwyr Gogledd Cymru, gan ddweud ei fod yn hanfodol i'r penderfyniad.
- Roedd yr aelodau'n barod i weithio mwy i gefnogi'r Parth Buddsoddi.

**5. Cyflwyniad gan Dr Mike Roberts, Prifysgol Bangor ar Long Ymchwil y Prince Madog (sleidiau ar gael i'w dosbarthu).**

- Tynnodd Dr Roberts sylw at waith yr Ysgol Gwyddorau Eigion ar fapio morol, sy'n cyflawni gwerth £3 miliwn o weithgareddau mapio ar wely'r môr yng Nghymru, gan weithio gyda sefydliadau morol mawr. Rhan o gyfanswm o £50 miliwn dros y prosiect Seams cyfan rhwng 2021-2030.
- Mae'r Ysgol mewn lleoliad strategol i gyflawni'r gweithgareddau hyn, yn enwedig gan ddefnyddio'r llong Prince Madog. Cafodd Canolfan Forol Cymru ei hagor yn 2016 ac mae'n dangos lleoliad a chyfleusterau cryf yr Ysgol. Ers i gyllid yr Undeb Ewropeaidd ddod i ben, nid yw'r ganolfan wedi cael llawer o brosiectau a gweithgareddau ar y cyd, ond mae awydd i newid hynny drwy'r gweithgarwch mapio a mentrau eraill.

- Ased gwych, yn cael ei ddefnyddio fel llwyfan ar gyfer addysgu a gweithgareddau masnachol gyda phartneriaid. Mae hyn yn cynnwys buddsoddi mewn hydrogen i foderneiddio a gwella cynaliadwyedd y llong.
- Amlinellwyd ystod y llong, ynghyd â'i lleoliadau arolwg a gweithgareddau amrywiol eraill. Mae'n cyfrannu at ddeall amgylchedd gwely'r môr, ar gyfer isadeiledd a defnyddwyr eraill.
- Y cynnig yw y dylid cael rhaglen genedlaethol mapio morol i Gymru gan fod gennym yr arbenigedd, y gallu a'r offer. Rhaglen strategol sy'n cael ei harwain gan alw fyddai'n disodli gweithgarwch ar hap. A dealltwriaeth well o'r gweithgarwch ger y lan, ble mae data'n brin. Gallai hyn gostio rhwng £130,000 a £160,000 a bydd Dr Roberts yn cyflwyno'r achos i Lywodraeth Cymru.
- **Trafodaeth:**
- Cytunodd y grŵp i gefnogi'r alwad am raglen genedlaethol mapio morol.
- Cafwyd trafodaeth bellach am fapio masnachol.

**6. Cludiant: Cyflwyniad gan Sarah Reardon, Pennaeth Strategaeth Network Rail Cymru: diweddariad ar gyhoeddiad ar y cynllun £1 biliwn i Drydaneiddio Prif Reilffordd Gogledd Cymru:**

- Yn dilyn y cyhoeddiad ar y cynllun £1 biliwn i Drydaneiddio Prif Reilffordd Gogledd Cymru, mae Network Rail yn llunio papur ar gais yr Adran Drafnidiaeth.
- Edrych ar gostau aliniad strategol, enillion cyflym, cysylltedd rhanbarthol a strategaeth cerbydau. Roedd llywodraethu a sicrwydd hefyd yn allweddol yn enwedig ar gyfer ymgysylltu â budd-ddeiliaid.
- Eglurwyd na chafodd NR unrhyw gyllid hyd yma i weithio ar drydaneiddio. Gallai hyn fod ar ôl yr etholiad. Ond nid yw NR eisiau aros yn eu hunfan ac maent wedi dechrau ar y gwaith. Ni chafwyd eglurder hyd yma ar gwestiynau allweddol megis cwmpas daearyddol, cost o £1 biliwn, pa waith galluogi fydd ei angen. Mae cwestiynau allweddol yn parhau am drydaneiddio ehangach y tu allan i'r llinell, cyflenwad ynni a gofynion cerbydau'r gweithredwyr. Byddai hyn i gyd yn cael ei ddatgelu yn ystod y gwaith datblygu.
- Mae ymgysylltu cychwynnol yn cael ei gynnal â budd-ddeiliaid sydd â diddordeb.
- **Trafodaeth:**
- Holodd Sam Rowlands i ble'r oedd trafodaethau cychwynnol yn mynd? Trafodaethau â'r Adran Drafnidiaeth yn bennaf ar hyn o bryd. Mae NR yn gobeithio y gall yr Adran Drafnidiaeth gyflwyno'r achos i'r Trysorlys am gyllid. Awgrymodd Sam Rowlands y gallai gwleidyddion ryngweithio â'r Adran Drafnidiaeth ar hyn.
- Holodd Carolyn Thomas am gostau ac a fyddai'r llinell gyfan yn cael ei thrydaneiddio. Gofynnodd a oedd hyn wir yn bwysig o'i gymharu ag ymdrin â blaenoriaethau strategol ar draws yr ardal gyfan yn cynnwys Caer â chludo nwyddau.

- Roedd NR yn ymwybodol o'r materion yn ymwneud â strwythurau anodd fel Castell Conwy a sut y bydd angen ymdrin â'r rhain, a ble byddai trydaneiddio'n rhannol yn cael ei gynghori. Mae'r cyfan yn cael ei drafod, ond mae'n amhosibl cadarnhau eto.
- Cyllid datblygu yw'r brif flaenoriaeth fel y gallwn ateb y cwestiynau hyn.
- Cam Gweithredu: Yr Ysgrifennydd i weithio gyda'r Cadeirydd i grynhoi'r cwestiynau hyn mewn llythyr at yr Adran Drafnidiaeth.

**7. Y wybodaeth ddiweddaraf gan Uchelgais Gogledd Cymru yn cynnwys Bargen Dwf Gogledd Cymru, Cyd-bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru yn cynnwys y Cynllun Cludiant Rhanbarthol a'r Cynllun Datblygu Strategol: Cyflwynodd Alwen Williams, y Cyfarwyddwr Portffolio yn absenoldeb y Cynghorydd Dyfrig Siencyn.**

- Mae'r achosion busnes amlinellol wedi cael eu hamlinellu a'u cymeradwyo ar gyfer y Fargen Dwf. Treulio Anaerobig, Talent Twristiaeth a Datrysiadau Egni (Energy Solutions), y Ganolfan Peirianneg Menter ac Opteg ynghyd â Phrifysgol Wrecsam.
- Mae'r Bwrdd wedi cymeradwyo'r achos busnes amlinellol ar gyfer y cyn Ysbyty Gogledd Cymru yn Ninbych. Bydd yn dod â £100 miliwn i mewn dros 10 mlynedd, wedi'i arwain gan Jones Brothers ar gyfer datblygiad preswyl/masnachol yn cynnwys adfer y prif adeilad rhestredig.
- Mae'r Cyd-bwyllgor Corfforedig wedi cynnwys y Parth Buddsoddi a'r ddwy ddyletswydd statudol. Ar gyfer cludiant rhanbarthol, mae achos drafft dros newid yn cael ei gylchredeg a disgwylir drafft terfynol erbyn diwedd y mis. Bydd y Cynllun Cludiant Rhanbarthol yn cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn diwedd mis Mawrth 2025. Mae'r gwaith ar y gweill ar y Cynllun Datblygu Strategol, cyfarfod allweddol â swyddogion i weld sut y gellir ei gysylltu'n well â chludiant yng nghyd-destun manteision cymdeithasol-economaidd ehangach.
- **Trafodaeth:**
- Gofynnodd Sam Rowlands am farn arweinwyr y Cynghorau am faterion llywodraethu gyda'r Cyd-bwyllgor Corfforedig a'r rhanbarth. Cafwyd trafodaeth am bwysigrwydd gweithio'n rhanbarthol a phwysigrwydd cydnabod ei fod yn ymestyn ar draws y ffin i Loegr a gweithio ochr yn ochr ag awdurdodau lleol cymdogol yn cynnwys Gorllewin Swydd Gaer a Chaer a Chilgwri.

**8. Unrhyw Fater Arall**

CLlLC i osod dyddiad y cyfarfod nesaf a'i rannu.